# Sgiliau Hanfodol Cymru

## CYMHWYSO RHIF

**Nodiadau pwysig:**
1. Mae pob lefel o'r sgil yn ymgorffori'r lefelau blaenorol ac yn adeiladu arnyn nhw.
2. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau 'Ymhelaethu ar ofynion y dystiolaeth' a 'Diffiniadau Gorfodol Cymhwyso Rhif' sy'n rhoi manylion mandadol am bob cydran ac sy'n rhan hanfodol o'r safonau.

## Lefel 4

Mae hyn yn golygu arddangos eich sgiliau wrth:
- ddatblygu strategaeth ar gyfer defnyddio sgiliau rhif
- monitro eich cynnydd ac addasu eich strategaeth fel y bo angen
- cyflwyno canlyniadau eich gwaith
- gwerthuso eich strategaeth gyffredinol.

**D.S**. Mae'n rhaid i chi roi o leiaf un enghraifft o gwrdd â gofynion y safonau **Rh4.1, Rh4.2,** a **Rh4.3** yng nghyd-destun un gweithgaredd.

### Rh4.1 Datblygu strategaeth

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**Rh4.1.1**
Datblygu strategaeth ar gyfer defnyddio sgiliau rhif dros gyfnod estynedig.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- sefydlu cyfleoedd ar gyfer defnyddio sgiliau rhif
- nodi'n eglur y canlyniadau rydych yn gobeithio eu sicrhau
- cynllunio eich defnydd o sgiliau rhif dros gyfnod estynedig
- dewis, ar sail ymresymu, y dulliau sy'n sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen, gan gynnwys:
    - llunio damcaniaethau, gan ddefnyddio modelau a thechnegau eraill i'w harchwilio
    - sefydlu dulliau o brofi'r damcaniaethau
- canfod ffynonellau gwybodaeth perthnasol, gan gynnwys pobl a deunydd cyfeiriol, ac ymchwilio i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

### Rh4.2 Monitro cynnydd

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**Rh4.2.1**
Monitro eich cynnydd ac addasu eich strategaeth, fel y bo angen, er mwyn sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen mewn gwaith yn cynnwys:
- rhesymu diddwythol a chasgliadol
- modelu algebraidd.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- werthuso gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan ddatblygu gwahanol lwybrau ymholi lle y bo'n briodol
- gwneud cyfrifiadau i'r lefelau priodol o gywirdeb, gan ddefnyddio ystod o dechnegau rhifiadol, graffigol a thechnegau mathemategol eraill sydd ynghlwm wrth y canlynol:
    - gwneud mesuriadau neu arsylwadau gan gynnwys defnyddio unedau cyfansawdd
    - darllen a dehongli lluniadau wrth raddfa, graffiau, tablau cymhleth a siartiau
    - trefnu a dosbarthu data
    - ffurfio casgliadau o setiau data
    - defnyddio dulliau rhifiadol, graffigol, ac algebraidd i ddatblygu modelau
    - defnyddio syniadau cyfrannedd, amrywiad a graddfa, gan gynnwys cyfrannedd gwrthdro ac amrywiadau aflinol eraill
    - gweithio â mynegiadau, fformiwlâu a hafaliadau, gan gynnwys pwerau ac israddau
    - gweithio â thebygolrwydd
    - gwneud didyniadau gan ddefnyddio rhesymeg algebraidd a gofodol a chymhwyso rhain i'ch gwaith
- monitro eich defnydd o sgiliau rhif ac adfyfyrio'n feirniadol arnyn nhw, gan gynnwys:
    - cael adborth gan eraill
    - nodi'r dewisiadau a wnaed a barnu pa mor effeithiol ydynt
- addasu eich strategaeth fel y bo angen er mwyn goresgyn anawsterau a sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen.

## Rh4.3 Cyflwyno canlyniadau a gwerthuso strategaeth

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**Rh4.3.1**
Cyflwyno canlyniadau eich gwaith.

**Rh4.3.2**
Gwerthuso effeithiolrwydd eich strategaeth a nodi ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau rhif ymhellach.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- ddehongli canlyniadau ac adnabod prif ganfyddiadau eich gwaith, gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi eich casgliadau
- cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol, gan ddewis dulliau priodol ar gyfer dangos canfyddiadau, gan gynnwys siartiau, graffiau a diagramau
- egluro canlyniadau mewn perthynas â'ch gwaith a'ch damcaniaethau
- gwerthuso effeithiolrwydd eich strategaeth, gan nodi'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y canlyniadau
- nodi ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau rhif ymhellach.

**Datganiad mynediad**
Efallai na fydd ymgeiswyr ag anableddau penodol yn gallu dangos eu bod yn gymwys drwy gyflwyno yr holl dystiolaeth yn y dull a nodir yn y safonau hyn.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hyn gellir gwneud addasiadau rhesymol i ofynion y dystiolaeth lle bo hynny'n briodol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y gellir caniatáu eithrio. Ceir manylion pellach am addasiadau rhesymol ac eithrio ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau penodol mewn dogfen ar wahân ar ymhelaethu.